Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 13.04.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# RECRIWTIO: Ychydig o lefydd ar ôl yn ffeiriau swyddi Gwaith Gwynedd yn Nhywyn ac Abermaw

Mae gan Gwaith Gwynedd ychydig o lefydd ar ôl mewn dwy ffair swyddi:

- Tywyn – Byw'n Iach Bro Dysynni, 26 Ebrill 2023
- Abermaw – Byw'n Iach Pafiliwn, 4 Mai 2023

Bu'r ffair swyddi ddiweddar ym Mangor yn llwyddiant mawr, gyda'r busnesau oedd yn recriwtio yn cynnig cyfweliadau ar y diwrnod i 50 o'r 115 wnaeth

fynychu yn chwilio am swydd. Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar:
01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Cofiwch hysbysebu eich swyddi gwag ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# DIGWYDDIAD: RWE Offshore UK | Diwrnod Ymgysylltu â Chyflenwyr Awel y Môr 20 Ebrill 2023

Nod y digwyddiad yma, i'w gynnal yn Venue Cymru, Llandudno LL30 1BB ar 20 Ebrill 2023 (9:15am-6:00pm), yw darparu cyfleoedd ymgysylltu cynnar i gwmnïau sydd am glywed mwy am ofynion cyflenwi RWE ar gyfer adeiladu fferm wynt alltraeth arfaethedig Awel y Môr. Mae mwy o wybodaeth a manylion cofrestru ar gael ar:

http://bit.ly/3zQMfuU

# AMGYLCHEDD: Digwyddiad Lansiad Yr Wyddfa Ddi-Blastig 24 Ebrill 2023

Bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn lansio Cynllun Busnes 'Yr Wyddfa Ddi-blastig' yng Ngwesty Royal Victoria, Llanberis ar 24 Ebrill 2023 (2:00pm-4:00pm). Bydd cyfle i fusnesau sy'n mynychu ymgysylltu â'r Awdurdod i ddatblygu'r weledigaeth o leihau plastigau untro a mynychu ffair fasnach fach gyda chyflenwyr lleol yn arddangos dewisiadau amgen di-blastig. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3novlRs

# DIGWYDDIAD: Adeiladu brand personol o'r dechrau mewn saith cam! 21 Ebrill 2023

Cael brand beiddgar ac adnabyddus yw'r ffordd gyflymaf o adeiladu presenoldeb ar-lein, sefyll allan o gystadleuwyr a chynyddu gwerthiant. Bydd Small Business Britain, BT Skills For Tomorrow a'r arbenigwr brand Hadrien Chatelet yn rhannu cyngor ar adeiladu brand personol o'r dechrau yn y

weminar awr hon i'w chynnal ar 21 Ebrill 2023 (10:00am). Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/405tePZ

## IECHYD A DIOGELWCH: Gwirfoddoli – arweiniad i gyflogwyr ar sut i reoli'r risgiau

Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) arweiniad ar sut i reoli'r risgiau i wirfoddolwyr, sy'n esbonio sut mae cyfraith iechyd a diogelwch yn berthnasol i wirfoddoli. Mae'r tudalennau hefyd yn darparu rhywfaint o gyngor penodol i wirfoddolwyr sy'n rheoli eiddo annomestig fel neuaddau pentref a chymuned, ynghyd ag arweiniad ar adwerthu a chodi arian elusennol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.hse.gov.uk/voluntary/index.htm

## CYFLOGAETH: Atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle – Lletygarwch

Mae mwyafrif o staff bariau a staff gweini yn dweud eu bod naill ai wedi profi neu wedi gweld ymddygiad rhywiol amhriodol. Mae gan bob cyflogwr ddyletswydd gofal i amddiffyn eu gweithwyr, ac mae peidio â chymryd camau rhesymol i atal aflonyddu rhywiol yn golygu y gall busnes gael ei ddal yn gyfreithiol gyfrifol pe bai achos yn digwydd. Mae rhestr wirio a chynllun gweithredu i atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle, a ddarperir gan UKHospitality a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), i'w cael ar:

https://www.ukhospitality.org.uk/page/PreventingSexualHarassmentChecklist

Mae'r EHRC eisiau clywed gan weithwyr yn y sector lletygarwch am eu profiad, fel y gallant barhau i wella'r pecyn cymorth a datblygu mwy o adnoddau a fydd yn helpu i atal aflonyddu rhywiol yn y sector. I gymryd rhan yn yr arolwg byr, ewch i:

https://bit.ly/43pxddd

# YMGYNGHORIAD: Diwygiadau arfaethedig i reolau hyfforddi gyrwyr bysiau, coetsys a cherbydau nwyddau trwm

Mae ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i reolau hyfforddi gyrwyr bysiau, coetsys a cherbydau nwyddau trwm ar agor – nod rhai o'r newidiadau arfaethedig yw helpu i'w wneud yn fwy fforddiadwy ac yn fwy effeithlon i yrwyr adnewyddu eu cymwysterau neu ddychwelyd i'r diwydiant. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 27 Ebrill 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3Uv8GPK

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru